

Y Teulu

Darllen: Effesiaid 2:19

Feddylioch chi am yr Eglwys fel teulu Duw? Defnyddir termau teuluol droeon i ddisgrifio aelodau'r Eglwys. Beth am 'genedigaeth newydd', 'plant Duw', 'meibion Duw', 'brodyr', 'tadau', 'tylwyth'?

Meddylir am yr Eglwys heddiw yn nhermau byd busnes. Y gweinidog neu'r offeiriad ydi'r rheolwr-gyfarwyddwr. Defnyddir yr oedfa i farchnata'r cynnyrch, a'r gynulleidfa ydi'r prynwyr. A beth wedyn am y gystadleuaeth barhaol rhwng busnesau (eglwysi) eraill yn yr un ardal? Ond dydi'r ddelwedd hon o'r Eglwys ddim yn bod yn y Testament Newydd gan fod y cystadlu hwn yn gwneud niwed mawr i gorff Crist, yr Eglwys. Teulu Duw ydi'r Eglwys, yn ôl y Testament Newydd. Holwn, felly, beth ydi bod yn aelod o deulu Duw.

Daw â chyfle i ni warchod ein gilydd a gofalu am ein gilydd a charu ein gilydd. Mae'n syndod, yn aml, cymaint o deuluoedd sydd a'u haelodau'n byw yng ngyddfau'i gilydd. Ddim yn adnabod ei gilydd nac yn deall ei gilydd. Daw hyn i'r amlwg adeg angladd pan holir am gefndir yr ymadawedig, ac yn amlach na pheidio ni fydd gan y plant wybodaeth drylwyr am eu rhieni. Fel aelod o deulu'r Eglwys, cawn gyfle i ofalu, ymweld, a dod i adnabod a deall ein gilydd. Golyga hyn dreulio amser gyda'n gilydd y tu allan i oedfaon y Sul. Digwyddai hyn yn gyson yn yr Eglwys Fore, 'A chan ddyfalbarhau beunydd yn unfryd yn y deml, a thorri bara yn eu tai, yr oeddent yn cydfwyta mewn llawenydd a symledd calon, dan foli Duw a chael ewyllys da'r holl bobl' (Actau 2:46-47). Roedd y Cristnogion cynnar yn cael eu hannog i gyfarch ei gilydd â chusan, 'Cyfarchwch eich gilydd â chusan sanctaidd,' meddai Paul wrth yr eglwys yn Rhufain (Rhufeiniaid 16:16), a'r un oedd ei gyfarchion i eglwys Corinth (1 Corinthiaid 16:20) ac eglwys Thesalonica (1 Thesalonicaid 5:26). Tybed ydi'n heglwysy ni heddiw braidd yn oeraidd a dideimlad?

Mae'n fyd caled a didostur, ac felly mae cyfeillgarwch a chynhesrwydd eglwys yn hanfodol. Cerddwch ar hyd ein strydoedd, boed yng nghanol y ddinas neu yng nghefn gwlad, ac fe gewch enghraifft ar ôl enghraifft o bobl wedi'u hamddifadu o gynhesrwydd cymdeithas a chymuned. Mi welwch chi unigolion yn swatio mewn conglau, a theuluoedd cyfain yn methu cyd-fyw. Mae canfod cymuned o heddwch, tangnefedd a brawdgarwch yn nefoedd i unigolyn sy'n wynebu casineb a thrais yn feunyddiol.

O fewn y teulu, mae gan bob aelod gyfrifoldebau. Mae'n ofynnol i aelodau'r teulu chwarae eu rhan a chyd-dynnu er lles y teulu cyfan. Yn hytrach na bod yn deulu, mae'r Eglwys erbyn hyn yn dibynnu gormod ar yr arweinydd. Y rôl bellach ydi fod yr arweinydd yn 'perfformio' a'r gynulleidfa'n eistedd yn oddefol. Nid theatr mo'r Eglwys, ond teulu, a phawb yn cyd-dynnu er mwyn y teulu cyfan. Mae Paul yn annog y Galatiaid, 'Felly, tra bydd amser gennym, gadewch inni wneud da i bawb, ac yn enwedig i'r rhai sydd o deulu'r ffydd' (Galatiaid 6:10). Ac meddai wrth aelodau'r eglwys yn Effesus, 'Felly, nid estroniaid a dieithriaid ydych mwyach, ond cyd-ddinasyddion â'r saint ac aelodau o deulu Duw' (Effesiaid 2:19).

Myfyrdod pellach:

Ydi'r ddelwedd o 'deulu' yn un dda i ddisgrifio Eglwys Iesu Grist?

Ai 'theatr' ynteu 'deulu' yw eich eglwys chwi?